

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2016– 6:00 y h., 5ed TACHWEDD 2016
OAKLEY ARMS, MAENTWROG

1. Croeso

Estynnodd Richard Roberts, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y ffaith fod ei gadeiryddiaeth yn dod i ben yn y cyfarfod hwn. Roedd wedi mwynhau cyfnod ei gadeiryddiaeth a chyfeiriodd yn arbennig at gyhoeddi'r gyfrol *Copaon Cymru* fel un o uchafbwyntiau'r cyfnod. Roedd ymdrechion wedi bod hefyd i geisio codi ymwybyddiaeth am y Clwb ymysg y genhedlaeth iau drwy gysylltu ag Undebau Myfyrwyr a Mudiad yr Urdd yn ystod y cyfnod.

Cyfeiriodd at ddarlith Gerallt Pennant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac ar ran yr aelodau diolchodd i Gerallt am ei ddarlith ddifyr a doniol.

Longyfarchodd yr aelodau hynny o'r Clwb a lwyddodd i ennill cymwyster Arweinydd Mynydd (haf) yn ddiweddar

Diolchodd i swyddogion y Clwb a gweddill aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth dros y cyfnod a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd, y swyddogion a'r pwyllgor yn eu gwaith o lywio gweithgareddau'r Clwb i'r dyfodol.

Ar ran y pwyllgor ac aelodau'r Clwb, diolchodd Sian, cadeirydd newydd y Clwb i Richard am ei wasanaeth penigamp yn y gadair dros y 2 flynedd diwethaf a chyflwynodd rodd fechan iddo fel cydnabyddiaeth.

2. Ethol Cadeirydd 2016- 2018

Etholwyd Sian Shakespear fel Cadeirydd y Clwb am y cyfnod 2016 – 2018

3. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Dewi Hughes, Iolo ap Gwynn, Mark W Williams

4. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2015

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd 2015 yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed fel rhai cywir.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth

Adroddodd Iolo fod y pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, ym misoedd Ionawr, Mai a Medi.

Rhai o'r materion a gafodd sylw:

a. Y prif fater a aeth a llawer o amser y pwyllgor eleni oedd paratoi'r gyfrol *Copaon Cymru* ar gyfer ei chyhoeddi ac hefyd trefnu'r noson lansio ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Hydref.

b. Ym mis Ionawr, daeth Elfyn Jones o'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) i gyfarfod y pwyllgor a rhoddodd fraslun o waith y CMP yng Nghymru ac fe ystyriwyd os oedd ffyrdd i'r Clwb a CMP allu cydweithio.

Dywedodd y byddai'r CMP yn rhoi cefnogaeth ariannol tuag at y gost o gyhoeddi *Copaon Cymru* ac fe ofynnodd i aelodau ystyried mynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod presenoldeb gref o Gymry Cymraeg ynddynt.

c. Ym misoedd Ionawr a Mai rhoddwyd sylw i'r trefniadau ar gyfer y ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol a bydd angen ystyried trefniadau ar gyfer Eisteddfod Môn yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

ch. Fel rhan o ymgyrch gyson i geisio codi ymwybyddiaeth am y Cwb ymysg pobl ifanc, bu trafodaethau ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal penwythnos ar y cyd hefo Gwersyll yr Urdd yn Glanllyn gyda'r clwb yn gyfrifol am drefnu teithiau – rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ym mis Ebrill 2017.

d. Roedd bwriad i helpu'r Parc Cenedlaethol i chwalu rhai o'r carneddi ar Gader Idris yn ystod yr haf ond fe'i canslwyd oherwydd tywydd gwael.

dd. Ynglŷn ag offer y Clwb, penderfynwyd cael gwared o'r rhaffau oedd gennym gan nad oedd cofnod pendant wedi ei gadw o'u defnydd, a chan nad oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt peidio â phrynu rhai newydd ac edrych ar y sefyllfa eto mewn blwyddyn.

e. Gwasanaeth Bysus Sherpa – mynegodd y pwyllgor bryderon am y gwasanaeth tu allan i Llanberis – Pen y Pass ac fe ysgrifennwyd at Gyngor Gwynedd yn cyfeirio at y pryderon hyn ond ni chafwyd ymateb positif. Penderfynodd y pwyllgor gysylltu â'r Cyngor eto ynglŷn â hyn.

f. Cysylltwyd â'r Parc Genedlaethol ynglŷn â chyflwr y llwybr i fyny Moel Siabod ger Llyn y Foel.

ff. Ym mis Medi ystyriwyd y bwriad i newid enw'r Cyngor Mynydda Prydeinig ac fe wrthwynebwyd y bwriad.

g. Rhaglen y Clwb : penderfynodd y pwyllgor arbrofi gydag rhai datblygiadau newydd i weld sut ymateb y byddent yn ei dderbyn gan gynnwys wythnos ychwanegol yn yr Alban ar adeg gwahanol o'r flwyddyn ac ychydig o ddyddiau i ffwrdd gyda naws teithiau dydd Mercher iddynt.

6. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau

Pwysleisiodd Eryl mai cyfrifoldeb sy'n cael ei rannu yw'r cyfrifoldeb o drefnu gweithgareddau'r clwb a diolchodd i rai fel Dewi Hughes am drefnu teithiau'r de, Arwel Roberts a Myfyr Tomos am ysgogi dringo ac i'r rhai sy'n gyfrifol am y teithiau dydd Mercher hynod boblogaidd. Diolchodd hefyd i'r rhai sy'n gwirfoddoli i drefnu ac arwain

gweithgareddau – 38 o wahanol unigolion eleni - – ar ei ran ei hun ac ar ran aelodau'r Clwb sydd wedi mwynhau'r teithiau a drefnwyd.

Trefnwyd 26 o deithiau cerdded penwythnos yn y gogledd, y mwyafrif llethol ar ddydd Sadwrn. Mae'r dewis o Sadwrn neu Sul i arweinydd pob taith ond mae'r rhan fwyaf yn mynd am y Sadwrn. Roedd cyfartaledd o bron i 13 ar bob taith ac, fel y llynedd, taith yn Sir Feirionnydd oedd y fwyaf poblogaidd, gyda 23 yn dringo Diffwys a Llethr ddiwedd Tachwedd y llynedd dan arweiniad Myfyr Tomos. Cynhaliwyd 10 o deithiau Mercher, gyda chyfartaledd o 22 ar y teithiau hyn, gyda thaith arall ym Meirionnydd ar y brig o ran nifer, 26 yn cerdded Cwm Hesgyn ger Y Bala ym mis Mehefin. Cynhaliwyd 10 o deithiau yn y de hefyd ond nid oes cofnod ar gael o'r niferoedd. Ond roedd 25 ar daith Pedol Grwyne Fawr dan arweiniad Dwynwen yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Ateggodd eto y byddai'n braf gweld adroddiadau o deithiau'r de yn cyrraedd y wefan, ac yn sicr byddai lolo ap Gwynn yn croesawu hynny hefyd.

Trefnwyd tair taith feicio, un ar feiciau lôn a dwy ar feiciau mynydd a chafwyd rhai sesiynau dringo hefyd. Yn ogystal â gweithgareddau wedi eu trefnu'n swyddogol, mae rhwydwaith y Clwb yn galluogi aelodau i gysylltu a threfnu ymysg ei gilydd.

Cafwyd wythnos lwyddiannus arall yn yr Alban nôl ym mis Chwefror, yn aros dan yr unto mewn canolfan yn Corpach ger Fort William. Cafwyd deuddydd braf iawn ddechrau'r wythnos cyn i bethau ddirywio. Bydd croesi'r afonydd ym mhellafoedd Glen Nevis yn aros yn hir yn y cof! Maldwyn sy'n parhau i drefnu'r triapiau hyn felly llawer o ddiolch iddo.

Cafwyd darlith lwyddiannus dros ben, darlith Goffa Llew Gwent, yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda chynulleidfa dda iawn i wrando ar Gerallt Pennant yn traethu'n hynod ddifyr ar y testun Coes glec, mascara a'r Mynyddoedd Duon. Ac oedd, roedd synnwyr yng ngeiriad y testun!

Bu nifer o wahanol griwiau yn crwydro dros y môr gyda sawl grŵp yn estyn gwahoddiad i gyd-aelodau ymuno â hwy, er nad oedd y teithiau hyn yn rhai swyddogol gan y Clwb. Da dweud bod sawl trip o'r fath ar y gweill ar gyfer 2017 hefyd.

Bydd y dasg o drefnu rhaglen Ionawr – Ebrill yn dechrau gyda hyn; y nod yw cynnig amrywiaeth o deithiau mynydda o wahanol hyd ac o wahanol her a gwahanol ardaloedd; y patrwm syflaenol yw taith fynydda eithaf sylweddol bob pythefnos ac yna cynnig gweithgareddau ychwanegol megis sgramblo neu feicio yn y bylchau rhyngddynt yn ogystal ag ambell daith gerdded llai heriol, yn arbennig o'r gwanwyn ymlaen. Roedd teithiau llwyddiannus Moel Eilio a'r Aran (ger Yr Wyddfa) yn enghreifftiau o'r rhain – ymgais i bontio'r bwlch rhwng taith dydd Mercher a thaith dydd Sadwrn.

Pwysleisiodd Eryl ei fod bob amser yn croesawu sylwadau, gan gynnwys beirniadaeth, os oes awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. Gofynnodd i'r aelodau fod yn barod i gynnig arwain a threfnu dros y flwyddyn sydd i ddod.

7. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan

Derbyniwyd adroddiad gan lolo ar y defnydd a wnaed o wefan y Clwb yn ystod y flwyddyn 'Diolch i bawb wnaeth ddanfôn adroddiadau a lluniau yn gyson ar gyfer y wefan.

Dwi'n ceisio eu rhoi i fyny mor fuan ag sy'n bosib. Fel arfer yn llwyddo mewn llai nag wythnos, onibai fy mod ar fy ngwyliau.

Does dim newid strwythurol wedi bod yn ystod y flwyddyn, ac mae'r wefan i weld yn gweithio yn effeithiol. Diolch i Cymru1 am eu gwasanaeth.

Dyma'r flwyddyn gynta hefyd i ni gael yr enw parth 'clwbmynydda.cymru', yn ogystal a'r hen un 'clwbmynyddacymru.com'.

Mae ffigurau yn dangos fod defnydd cyson a niferus o'r wefan – rhai cannoedd bob mis (er yn amrywio yn ôl y tymor fel y gellid disgwyl).

Mae'r defnydd o dudalen FaceBook wedi codi yn ystod y flwyddyn ac mae negeseuon yn cyrraedd tua 400, ar gyfartaledd. Rydym wedi dechrau rhoi cyhoeddiadau am y rhaglen a phethau eraill hefyd ar FB. Mae hynny i weld yn cael derbyniad ffafriol.

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau.'

8. Adroddiad y Trysorydd

Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2015-2016.

Adroddwyd

- i. bod nifer yr aelodau eleni yn 296 (cynnydd o 288 y llynedd)
- ii. Gwnaeth y Clwb gyfraniad o £2034.75 tuag at y gost o baratoi, cyhoeddi a lansio *Copaon Cymru* ond bydd maes o law yn derbyn incwm breindal yn dilyn gwerthiant
- iii. bod cynnydd wedi bod yn y costau gweinyddol
- iv. bod y cyfrifon yn dangos bod gan y Clwb swm o £4,829.45 yn y banc

Cytunwyd derbyn y cyfrifon ar gyfer 2015-2016

9. Swyddogion y Clwb

Ail etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2017:

Trysorydd : Gareth E Roberts

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

10. Ethol Is-gadeirydd

Cytunwyd ethol Gwyn Williams (Llanrwst) i wasanaethu fel Is-gadeirydd y Clwb

11. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2017

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth y byddai Richard Roberts (ar ddiwedd ei dymor fel Cadeirydd) a Sian Williams yn terfynu eu haelodaeth o'r pwyllgor ar ôl eleni ac fod

dau aelod o'r Clwb wedi datgan parodrwydd i wasanaethu ar y pwyllgor yn 2017 yn eu lle, sef Raymond Griffiths a Dwynwen Jones. Yn dilyn hyn bydd aelodaeth y pwyllgor fel a ganlyn:

Cadeirydd

Sian Shakespear

Is-gadeirydd

Gwyn Williams (Llanrwst)

Aelodau

Raymond Griffiths

Dewi Hughes

Elen Huws

Dwynwen Jones

Myfyr Thomas

Eirwen Williams

Mark W. Williams

Swyddogion

Gareth E. Roberts

Trysorydd

Eryl Owain

Ysgrifennydd Gweithgareddau

Iolo ap Gwynn

Ysgrifennydd y Wefan

Iolo Roberts

Ysgrifennydd Cyffredinol

Gan nad oedd neb arall wedi datgan diddordeb i wasanaethu ar y pwyllgor, cytunwyd ar yr aelodaeth uchod ar gyfer 2017.

12. Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

13. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth cais i drafod unrhyw bwnc penodol.

Ar ôl y Cinio Blynyddol cafwyd cyflwyniad gan Eryl Owain ac Aneurin Phillips yn olrhain hanes *Copaon Cymru* a sut yr aed ati i sicrhau bod y freuddwyd o greu llyfr o'r fath yn cael ei gwireddu. Canolbwyntiodd Eryl ar enedigaeth a datblygiad y syniad o gyfrol o'r fath wedi ei chynhyrchu gan y Clwb, sut yr aeth ati i benderfynu pa deithiau i'w dewis ac wedyn y broses o hel yr hanesion at ei gilydd a'u trosglwyddo i'r Wasg ar gyfer y cyhoeddi. Soniodd Aneurin am waith y Panel Llundiau a sut aethpwyd ati i ddewis a dethol lluniau ar gyfer y gyfrol.

Diolchodd y ddau i aelodau'r Clwb am eu holl waith a'u cefnogaeth i'r ymdrech i baratoi y gyfrol gan nodi na fyddai wedi bod yn bosib cyhoeddi'r llyfr heb y cymorth yma. Teimlent mai canlyniad yr holl ymdrechion yma oedd cyhoeddi llyfr swmpus a phenigamp ar fynydda yn y Gymraeg a oedd yn ddathliad o fynyddoedd Cymru ac yn ffenestr i weithgareddau'r Clwb ac roedd yn ôl bob sôn yn gwerthu yn dda yn y siopau llyfrau.

Ar ran yr aelodau diolchodd Sian i Eryl ac Aneurin am eu cyflwyniad difyr ac fe gymerodd y cyfle i ddiolch iddynt am eu holl waith wrth fynd ati i baratoi'r llyfr ac i weddill aelodau'r Clwb oedd wedi cyfrannu tuag at y fenter lwyddiannus.